Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 26.10.2020

Dyma ychydig o wybodaeth byddwn yn gobeithio fydd o gymorth i chi ar gyfer eich busnes.

## Cyfnod atal byr cenedlaethol coronafeirws: Cau busnesau ac adeiladau

Mae'r canllawiau yn ymwneud â busnesau a mangreoedd nad ydynt yn hanfodol y mae'n rhaid eu cau o 6:00pm ar 23 Hydref 2020 ar gael ar wefan

mynediad at rai busnesau a mangreoedd sydd wedi cau. Ewch i:

https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-cau-busnesau-ac-adeiladau-html

Mae'r canllawiau a'r cwestiynau cyffredin diweddaraf am y cyfnod atal ar y ddolen ganlynol i wefan Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei ddiweddaru yn rheolaidd:

https://llyw.cymru/cyfnod-atal-y-coronafeirws-cwestiynau-cyffredin

# Cefnogaeth ariannol mewn ymateb i'r cyfnod atal byr cenedlaethol

Mewn ymateb i'r "cyfnod atal byr" cenedlaethol rhwng 23 Hydref 2020 a 9 Tachwedd 2020 bydd y cronfeydd arian canlynol i gefnogi busnesau ar gael o ganol yr wythnos yma:

- Grant Datblygu Busnes y Gronfa Cadernid Economaidd (ERF) (hyd at 100% o gyllid) a ddarperir gan Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys arian wedi'i neilltuo ar gyfer twristiaeth a lletygarwch. Mae penderfyniad ar fanylion terfynol Cam 3 Grant Datblygu Busnes y Gronfa Cadernid Economaidd (ERF) ar y gweill, a rhagwelir agor ar gyfer ceisiadau wythnos yma (Dydd Mercher, 28 Hydref 2020 – i'w gadarnhau). Defnyddiwch y Gwiriwr Cymhwysedd i weld y meini prawf cyn iddo agor:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/erfphase3/cy

- Cronfa Fusnes Cyfnod Atal a ddarperir gan gynghorau lleol a fydd yn rhoi rhywfaint o gymorth i'r rhan fwyaf o fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch sy'n gorfod cau, busnesau bach yn talu ardrethi busnes a busnesau eraill, gan gynnwys yr hunangyflogedig, sy'n disgwyl colli'r rhan fwyaf o'u hincwm yn ystod y cyfnod cloi. Bydd cymorth ychwanegol ar gael i fusnesau ym Mangor y mae'r clo lleol wedi effeithio arnynt.

Bydd manylion ar gael yn ystod y dyddiau nesaf, ond mae rhagor o wybodaeth ar gael:

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy

# Cam 2: Grant Gweithwyr Llawrydd y Gronfa Adferiad Diwylliannol

Mi wnaeth Cam 2 y gronfa agor am 10:00am Ddydd Llun 19 Hydref 2020. Unwaith eto bydd Cam 2 yn cael ei ddethol ar sail cyntaf i'r felin, felly mae angen gwneud cais cyn gynted â phosib. I wirio'ch cymhwysedd am grant gan y Gronfa Adferiad Diwylliannol i weithwyr llawrydd, ewch i:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/culture/cy

# Cymorth Recriwtio Prentisiaid

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio pecyn sgiliau a swyddi sydd werth £40 miliwn er mwyn helpu cyflogwyr fel chi i recriwtio a hyfforddi gweithwyr newydd, gan gynnwys prentisiaid a phobl ifanc. Bydd y cymelliadau prentisiaethau, a gaiff eu cynnig o 1 Awst 2020 i 28 Chwefror 2021, yn helpu busnesau i recriwtio prentisiaid a datblygu gweithlu sy'n medru bodloni anghenion busnes sy'n newid. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/rhaglenni-sgiliau-hyfforddiant/prentisiaethau/cyllid-ar-gael

# Brexit: Paratoi Cymru

Bydd y cyfnod pontio sydd wedi galluogi'r DU i barhau i weithredu fel pe bai'n Aelod-wladwriaeth o'r UE yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Waeth beth fo canlyniad y negodiadau rhwng Llywodraeth y DU a'r UE, mae'n rhaid i fusnesau weithredu yn awr i baratoi ar gyfer newidiadau a fydd yn digwydd ar 1 Ionawr 2021. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://llyw.cymru/paratoi-cymru-brexit/busnes-economi

https://businesswales.gov.wales/eu-transition-portal/cy

https://www.gov.uk/government/publications/the-border-operating-model

# Cynhadledd Rhithwir ar Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru ac Adferiad Economaidd

Cynnydd ar y Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru a buddsoddiadau mawr yn y rhanbarth fydd ffocws cynhadledd rhithwir, wedi'i threfnu gan Gyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, mewn partneriaeth â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Cynhelir y digwyddiad ar-lein ddydd Mercher, 4 Tachwedd 2020 rhwng 1:00pm a 4:00pm. Jim Jones, Prif Weithredwr Twristiaeth Gogledd Cymru a chadeirydd y Cyngor Busnes fydd yn cyflwyno'r digwyddiad, a fydd yn cynnwys diweddariadau gan Swyddfa

Rhaglen y Bwrdd Uchelgais ar brosiectau trawsffurfiol a fydd yn dechrau yn 2021. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/2HwuSaS

Cynhelir y sesiwn yn rhad ac am ddim ar gyfer rhanddeiliaid y sector preifat. Gall cwmnïau a sefydliadau gofrestru ar y ddolen ganlynol:

https://bit.ly/35swo60

# Cyrsiau ar-lein

- ‘Brexit the Essentials’

Yn dilyn llwyddiant ‘Brexit the Basics’ a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2020, ‘Brexit the Essentials’ yw’r ail yn y gyfres o dri digwyddiad, sy’n cael eu trefnu gan Gyngor Sir y Fflint, i gefnogi busnesau drwy’r cyfnod pontio gan arwain at Brexit terfynol ar 31 Rhagfyr 2020. Cynhelir y digwyddiad rhithwir hwn ddydd Iau 12 Tachwedd 2020 rhwng 8:30am a 10:00am. I archebu lle, ewch i:

https://bit.ly/3jujx8s

- Busnes Cymru: Dechrau Eich Busnes Eich Hun – Cymraeg

Mae’r gweminarau hyn, dan arweiniad ymgynghorwyr busnes profiadol, yn edrych ar chwech thema allweddol sydd angen eu hystyried os am gychwyn busnes eich hun. Bydd y gweminarau yn cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod yr wythnosau nesaf. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/SYOBCymraeg

- PopUp Business School: Cwrs ar-lein Gogledd Cymru

PopUp Business School ydi prif gwrs amgen am ddim y DU sy’n dangos ffyrdd ymarferol i chi o redeg busnes, waeth ble rydych chi ar eich taith. Os ydych eisoes wedi sefydlu’ch busnes byddant hefyd yn ymdrin â sut i addasu a bod yn fwy gwydn yn ystod cyfnodau o newid. Mi fydd y cwrs ar-lein pythefnos yn digwydd rhwng 2 Tachwedd 2020 – 13 Tachwedd 2020, a bydd yn cyflwyno eu dull unigryw o redeg busnes i chi. Dros 10 diwrnod bydd seminarau byw, cynnwys sydd wedi ei recordio ymlaen llaw, ymarferion ymarferol a

rhwydweithio ar-lein yn cael eu cyflwyno, fydd yn dangos i chi sut i addasu eich busnes ar gyfer cynulleidfaoedd ar-lein a sut i ddatblygu eich sgiliau a'ch gwybodaeth fusnes. Mae'r cwrs yn rhad ac am ddim, diolch i gefnogaeth Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/374A94b

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru